# heddwch

haf 2008
rhif 47

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear


# Yr Alban Ddewr

**Gallai'r Alban fod â'r allwedd i fyd newydd heb arfau niwclear. Cyfarfu Gweithgor Llywodraeth yr Alban ar Alban heb Arfau Niwclear am y tro cyntaf ym mis Ebrill.**

Bu'r drafodaeth gyntaf ar dri o'r materion sydd o fewn cylch gorchwyl y gweithgor:

* Pe bai penderfyniad i symud arfau niwclear o Ganolfan Lynghesol Clud EM, i archwilio'r effaith economaidd a nodi posibiliadau ar gyfer datblygu cyfleoedd cyflogaeth amgen;

* Archwilio oblygiadau ceisio statws sylwedydd gyda Grwp y Cytundeb Atal Ymlediad a chynghori Llywodraeth yr Alban ar y broses honno;

* Ystyried pa mor ddigonol yw'r fframwaith trwyddedu a rheoliadau cyfredol ar gyfer Canolfan Lynghesol Clud mewn perthynas â materion amgylcheddol, cynllunio a chludiant

### Cynghori'r Llywodraeth

Yn ei gyfarfod ym mis Awst, bydd y grwp yn nodi arfer da mewn rhannau eraill o'r byd o ran datblygu heddwch a chymod ac yn ystyried sut y gallai'r Alban gyfrannu tuag at y gwaith yma. Bydd y grwp yn adrodd yn ôl wrth Weinidogion ac yn eu cynghori yng nghyd-destun eu cyfrifoldebau datganoledig yn rheolaidd.



### Dim un lle i ymguddio

Os caiff arfau niwclear eu troi allan o'r Alban, gallai hynny olygu terfyn ar Trident ac unrhyw olynydd iddo. Mae'r llywodraeth Brydeinig wedi ymrwymo i system arfau niwclear ar longau tanfor, ar ôl gwrthod system ar dir neu yn yr awyr. Dydy Plymouth (Devonport) ddim yn lleoliad addas ar gyfer llongau sy'n cludo arfau niwclear am resymau diogelwch – byddai angen dod o hyd i safle 1,000 erw fel Coulport. Byddai gwrthwynebiad o Orllewin Lloegr yn golygu na fyddai Dyfnaint na Chernyw yn bosibiliadau ymarferol.

**Aelodau'r Gweithgor ar Alban heb Arfau Niwclear:**

- Dr Rebecca Johnson, Acronym Institute for Disarmament Diplomacy
- Yr Athro William Walker, Ysgol Cysylltiadau Rhyngwladol St Andrews
- Isobel Lindsay, Scotland's for Peace
- David Moxham, Cyngres Undebau Llafur yr Alban
- Y Cynghorydd James Robb, Cyngor Argyll a Bute
- Osama Saeed, Sefydliad Islamaidd yr Alban
- Y Parch. Ian Galloway, Eglwys yr Alban
- Scott Blair - Cyfreithiwr
- Alan Mackinnon, CND yr Alban
- Gillian Slider, Senedd Ieuenctid yr Alban
- John Deighan, Yr Eglwys Babyddol
- Dr Richard Dixon, WWF Yr Alban

### Cymru?

Byddai unrhyw gynllun i adleoli Trident neu olynydd iddo yn Aberdaugleddau gyda'i phurfeydd olew, glanfa LNG, a'i lleoliad mewn Parc Cenedlaethol mewn Cymru Ddi-niwclear yn esgor ar ymgyrch anferth o wrthwynebiad. Byddai unrhyw gyfleusterau newydd yn costio biliynau o bunnau.

Fel y dywed CND yr Alban: 'Gallai'r alwad am ddim arfau niwclear yr yn Alban fod o bwys byd-eang. Byddai dim Trident ar afon Clud yn golygu dim arfau niwclear Prydeinig yn unlle. Gallai hyn arwain at ddiarfogi gan wledydd niwclear eraill, a byddai'n gwneud argraff aruthrol ar ddiarfogi niwclear byd-eang ac ymlediad niwclear.'

## Ymuno â'r Gadwyn Heddwch

**Cymerodd aelodau o Fyddin Derfysglyd Clowniaid Gwrthryfelgar Aberystwyth ran mewn Cadwyn Heddwch o gwmpas Canolfan y Llynges Faslane ar afon Clud ar y 14eg Mehefin. Roedd 500 o bobl yn bresennol i nodi deugain mlwyddiant ymadawiad y llong danfor gyntaf ar fordaith o'r ganolfan. Roedd Mehefin 14eg hefyd yn flwyddyn wedi'r bleidlais yn Senedd yr Alban yn erbyn olynydd i system arfau niwclear Trident.**

Dywedodd cadeirydd CND yr Alban, Dr Alan Mackinnon: 'Mae cost cynnal a chadw a gwella llu llongau tanfor Trident Prydain yn cynyddu'n aruthrol o flwyddyn i flwyddyn. Y flwyddyn nesaf, bydd yn £2bn.' 'Mewn cyfnod o gynnydd mewn prisiau bwyd a thanwydd, cytundebau cyflogau is na'r gyfradd chwyddiant, a dirwasgiad economaidd ar y gorwel, mae'r rhan fwyaf o bobl yr Alban am i'r arian hwnnw gael ei wario ar wella bywydau pobl gyffredin.' Dywedodd Bill Kidd, un o nifer o ASAau a oedd yn cymryd rhan yn y gadwyn: 'Ar ôl 40 mlynedd o arfau dinistr torfol yng nghanol un o ardaloedd mwyaf poblog yr Alban, maent yn dal i fod yn ddigariad ac yn ddianghenraid ym marn ein pobl a'n haelodau seneddol.' Anfonodd yr actor Emma Thompson neges o gefnogaeth at y gwrthdystwyr yn dweud: 'Arddangoswyd y gorffwylledd a'r distryw a achosir gan ryfel gan y llywodraeth Brydeinig yn ddiweddar. Gobeithio y gwna hynny orffwylledd a distryw tebygol arfau niwclear yn glir fel grisial.'

Tra'r oedden nhw yn yr Alban, cafodd clowniaid Aberystwyth eu canwod wedi eu dychwelyd iddynt – cawsai'r rhain eu cipio gan yr heddlu ym mis Hydref pan geisiodd grwp o glowniaid lansio llynges fach o hwyaid ar y Loch. Mae'r canwod yn ôl yn ddiogel ym mreichiau Bae Ceredigion yn awr.



***y tu fewn:***

**Y diweddaraf am bwer niwclear**
**Menywod o gymru yn y llys**
**Dweud wrth Raytheon ym Mrychdyn**
**Aberporth**
**Pentywyn**
***a mwy....***


YNNI NIWCLIAR ? DIM DIOLCH

**Yr eliffant gwyn Sain Tathan yn simsanu**

gweler tudalen 3



**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

**heddwch**

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**
Jill Gough
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk



**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
01591 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com



**Nid yw cynnwys heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu lythyron at y golygydd.**




**Rhowch wybod i ni!**

**Os ydych yn derbyn 'heddwch' ond ddim am barhau i'w dderbyn, am barhau i'w dderbyn ond heb fod yn aelod ar hyn o bryd neu os hoffech fwy o gopïau i'w dosbarthu, da chi, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth drwy lythyr, dros y ffôn neu drwy ebost (gweler Cysylltiadau tud. 8) neu cwblhewch a dychwelwch y ffurflen aelodaeth ar dud. 8.**

# Cadw'r Heddwch

**Ynghyd â thri myfyrwyr arall, cafwyd myfyrwraig o Gymru, Emily Freeman, yn ddieuog yn Llys Helensburgh o darfu ar yr heddwch a gwrthod cael ei restio. Cawsai ei restio a'i chyhuddo ar ôl cymryd rhan yn y blocêd olaf yn ystod Faslane 365.**

Ar ôl cael ei chyhuddo o 'Darfu ar yr Heddwch', dadleuodd Emily yn y llys nad oedd wedi cyflawni'r un drosedd, ond ei bod yn cefnogi'r gyfraith ryngwladol a dyngarol drwy geisio cael gwared o arfau dinistr torfol. Roedd wedi ei chyhuddo hefyd o 'Wrthod cael ei Restio' am ei bod wedi 'mynd yn llipa' ac wedi gorfod cael ei chario o'r blocêd gan heddweision.

## Darnau o ddatganiad Emily Freeman yn ei hamddiffyn ei hun

Natur ac ansawdd fy ymddygiad oedd protest heddychlon – a ganiateir, mi gredaf, yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Y canlyniad a fwriedid i'r brotest oedd atal rhywbeth sydd yn peri dychryn ac aflonyddwch, sef Canolfan Niwclear Faslane, rhag gweithredu.

Wrth ystyried cyd-destun y brotest, carwn ystyried fy magwraeth a'r hyn a gredaf: Cefais fy magu i gredu fod arfau niwclear yn anfoesol ac yn anghyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol a dyngarol. Gwn y byddai defnyddio arfau niwclear yn beth ofnadwy, a fyddai'n lladd cannoedd, miloedd neu filiynau o sifiliaid mewn ffyrdd creulon, rhywbeth, hyd y gwn, na fynnai'r un bod dynol mewn gwirionedd.
Rwyf hefyd wedi gweld y llywodraeth Brydeinig yn mynd i ryfel ac yn bygwth mynd i ryfel yn erbyn gwlad arall, gan ddweud ei bod yn credu fod gan y wlad arall y fath arfau.

Rwyf wedi dysgu fod y llywodraeth Brydeinig wedi caffael arfau niwclear heb unrhyw benderfyniad democrataidd, a bod y system bresennol wedi ei rheoli yn rhannol gan Unol Daleithau America.
Rwyf wedi rhoi cynnig ar lawer math o brotest ddemocrataidd yn erbyn yr erchyllterau hyn - sgrifennu llythyron, mynychu gwrthdystiadau a chysylltu â chynrychiolwyr etholedig a swyddogion eraill, o'm llywodraeth fy hun a rhai ar Bwyllgor Cynhadledd y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY) a'u CU. Does dim byd wedi newid ond fod y llywodraeth Brydeinig wedi pleidleisio – yn groes i'w hymrwymiadau o dan y CAY – i adeiladu mwy o arfau.

Casglaf felly, er gwaethaf y ffaith fy mod wedi rhoi cynnig ar lawer math o brotest ddemocrataidd, nad yw fy llywodraeth fy hun yn gwrando nac yn fodlon gwrando arnaf os ceisiaf gyfathrebu â nhw yn y ffyrdd hyn.

Mae Prif Weinidog presennol yr Alban yn erbyn bodolaeth arfau niwclear, ac fe gefnogodd ein protest y diwrnod hwnnw, ac mae llawer iawn o arweinwyr gwleidyddol, ysbrydol ac academaidd – yn ogystal â miloedd ar filoedd o bobl dda, gyffredin – wedi ymuno â phrotestiadau cyffelyb drwy gydol blwyddyn Faslane 365 ac ers i Brydain gaffael arfau niwclear am y tro cyntaf. Os ydym am sôn am darfu ar yr heddwch – o'm safbwynt i, mae bodolaeth y ganolfan hon yn tarfu ar yr heddwch.

Mae bodolaeth y ganolfan yn destun pryder ac aflonyddwch beunyddiol i mi. Yr unig gyd-destun i'w bodolaeth yw i ddod â pheryg a marwolaeth.
Roedd fy ngweithredoedd y diwrnod hwnnw nid yn unig yn ymgais i leisio fy marn, fy mod i ac ein bod ni – roedd llawer iawn o bobl yno y diwrnod hwnnw – am gael gwared o'r arfau hyn, ond hefyd yn ymgais i gadw'r heddwch drwy ddefnyddio fy nghorff fy hun yn ddi-drais i gau'r ganolfan anheddychlon a pheryglus hon am gyfnod. Roedd ein protest yn gwbl heddychlon. Ni fuom yn dreisgar ar unrhyw adeg, ac ni wnaethom ddim mwy nag eistedd ar y ffordd a chanu o bryd i'w gilydd.
Rwyf yn ddieuog a byddaf yn parhau i wneud hynny a fedraf i sicrhau nad oes gan yr un wlad yn y byd arfau niwclear, fel y caf i a'm plant (a phlant pawb arall) ddyfodol diogel.

**Mae Emily yn dod o Sir Gaerfyrddin ac mae'r fyfyrwraig yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Caeredin**



## Taflegrau Niwclear yr UD yn ymadael â Phrydain

**Yn dawel bach, mae'r Unol Daleithau wedi tynnu ei holl arfau niwclear o'i maes awyr yn RAF Lakenheath (Suffolk). Dyma derfyn ar fwy na 50 mlynedd o bresenoldeb arfau niwclear ym Mhrydain ers i fomiau niwclear yr UD gyrraedd ym mis Medi 1954.**

Tynnodd yr UD ei harfau o'r Almaen yn 2005 ac o Roeg yn 2001. Roedd 110 o fomiau niwclear yr UD yn dal i fod wedi eu lleoli yn Lakenheath fel rhan o gyfanswm o 480 ledled Ewrop.

### Tir Mawr Ewrop

Mae safleoedd arfau niwclear yr UD yn Ewrop wedi lleihau yn awr i gyfanswm o chwe safle yn Ewrop – gwersylloedd Awyrlu'r UD yn yr Eidal a Thwrci a rhai NATO yng Ngwlad Belg, yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Eidal. Amcangyfrifir fod 150-240 o fomiau niwclear B61 yr UD yn dal i fod yn Ewrop. Mae'r UD yn arfogi ac yn hyfforddi milwyr Ewropeaidd o bedair gwlad ddi-niwclear sydd yn y CAY mewn gwersylloedd NATO i allu defnyddio arfau niwclear yr UD adeg rhyfel.

### Distawrwydd yn *diasbedain*

Cadwyd y symudiadau pwysig hyn yn dawel yn y gobaith y gellid atal dadl am ddyfodol gweddill yr arfau hyn. Mae swyddogion Rwsiaidd wedi cyfeirio cyn hyn at arfau'r UD yn Ewrop i gyfiawnhau gwrthod unrhyw gyfyngiadau ar eu harfau niwclear tactegol hwythau. Mae rhai beirniaid yn dweud fod yr UD wedi methu cyfle i siarad yn uniongyrchol ac yn bositif gyda Rwsia ynglwn â chwtogi ar arfau niwclear.

### Mae'r gwallgofrwydd yn parhau

Mae'n hen bryd i'r UD gwblhau'r broses o symud arfau niwclear tactegol o Ewrop a gychwynwyd – ond nas cwblhawyd – yn y 1990au cynnar. Meddai John Ainslie, Cydgysylltydd CND yr Alban: 'Does dim dadl gredadwy dros i NATO gadw arfau niwclear. Felly dylai Gordon Brown ddileu Trident a rhoi'r gorau i'w gynlluniau i adeiladu system arfau niwclear newydd.'

Daeth yr adroddiad fod yr UD wedi tynnu ei bomiau niwclear o Lakenheath oddi wrth Hans Kristensen o Ffederasiwn Gwyddonwyr America a fu'n monitro sefyllfa arfau niwclear yr UD yn Ewrop yn fanwl ers rhai blynyddoedd gan ddefnyddio dogfennau wedi eu rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth [www.fas.org]

# Sain Tathan yn simsanu

**Fis Hydref diwethaf, clywsom fod 'pecyn 2' ar gyfer Academi Hyfforddiant Milwrol arfaethedig Sain Tathan wedi ei oedi am gyfnod amhenodol, a gofynsom 'faint rhagor o olwynion y bydd rhaid i'r eliffant gwyn ymlwybrol yma eu colli cyn i wleidyddion pedair prif blaid Cymru sylweddoli fod yr holl broject yn gamgymeriad ofnadwy?' Pwy fasai wedi meddwl y byddai'r eliffant, erbyn mis Mehefin, yn gorwedd ar ei gefn yn chwifio'i goesau yn yr awyr? Mae rhai yn mentro meddwl fod yr holl beth yn graddol dod i stop.**




Mae o leiaf £11 biliwn o arian trethdalwyr ar fin cael ei wario ar adeiladu a rhedeg Academi Filwrol o dan gynllun PFI (cyllid cyhoeddus ond o dan reolaeth breifat) yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Mae aelodau craidd consortiwm Metrix a ddewiswyd i adeiladu a rhedeg yr academi yn cynnwys cwmni arfau Raytheon, yn ogystal â Serco a QinetiQ, ynghyd â'r Brifysgol Agored. Nid dim ond aelodau o luoedd arfog Prydain y bydd yr academi'n eu hyfforddi, ond milwyr unrhyw lywodraeth amheus neu gwmni milwrol preifat a all dalu.

**Peryglon**

Mae dogfennau a ddatgelwyd yn gyfrinachol o gyfarfod diweddar o Fwrdd Gwaith yr Arolwg Hyfforddiant Amddiffyn yn dangos y gallai fod oedi o 8 mlynedd yn awr cyn sefydlu'r Academi. Mae'r dogfennau hefyd yn nodi pryderon am beryglon a allai fod yn drychinebus i filwyr rheng-flaen. Dangosir fod 'arbedion' honedig y cytundeb PFI o £3 biliwn dros 25 years yn awr yn ddim ond £400 million dros 30 mlynedd; swm pitw yng nghyd-destun y gyllideb amddiffyn yn ei chrynswth. Mae Robert O'Harney, llefarydd Cosford ar ran Undeb y PCS yn hawlio fod brwdfrydedd y Weinyddiaeth Amddiffyn ynglwn â'r holl broject yn oeri . Dywedodd yn ddiweddar: 'O'r hyn a glywn, mae'r cwbl yn y fantol.'

**Amheuon**

Mae gobeithion yn cynyddu yn ne Lloegr fod y bygythiad i ganolfan hyfforddi HMS Sultan yn Gosport yn mynd i gael ei ohirio. Dyma lle mae llongwyr tanfor yn cael eu hyfforddi mewn gweithredu a chynnal a chadw llongau tanfor yn ogystal â llongau rhyfel eraill. Y llynedd, cyhoeddodd gweinidogion y byddai Sultan yn cau erbyn 2017 gyda'r holl hyfforddi'n cael ei symud i Sain Tathan. Yn awr, symudwyd y dyddiad hwnnw i 2025 o leiaf. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dweud na fu penderfyniad hyd yn hyn. Dywedodd AS Portsmouth South, Mike Hancock, aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn, fod y newyddion yn bwrw amheuaeth ar broject Sain Tathan: 'Dwi'n credu ei bod hi'n annhebygol y bydd cynllun Sain Tathan yn digwydd oherwydd mae'n ddrud iawn', meddai. 'Mae gennyf – ac fe fu gennyf erioed - fy amheuon ynglwn â'r project.'

**Wynebau coch**

Dywedodd Mr O'Harney 'Dwi'n credu fod peryglon preifateiddio yn annioddefol a synnwn i ddim pe bai gweinidogion yn tynnu'r plwg ar hyn, gan adael llawer o bobl â wynebau coch.' Mae newyddion am y dogfennau a ddatgelwyd, a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn *Private Eye*, yn dweud eu bod yn rhestru '15 risg sylweddol' yn cynnwys pryderon ynglwn â 'diffyg ethos milwrol' y consortiwm, ac am y posibilrwydd y bydd y rhai a hyfforddwyd yn ymadael 'heb eu paratoi'n ddigonol ar gyfer gwasanaeth gweithredol'.

**Dewisiadau amgen**


Yn lle gwastraffu amser ac arian ar drywydd ffyrdd milwrol mwyfwy gwallgof o ddatrys problemau rhyngwladol, dylai ein cynrychiolwyr etholedig fod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r newidiadau amgylcheddol anferth y mae'n byd yn eu hwynebu. Pam na allwn ni yng Nghymru arwain y ffordd gyda hyfforddi mewn dulliau di-drais o ddatrys anghydfod, ac atal trais gartref a mewn gwledydd tramor? Pam mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu toriadau pan fo arian ar gael i'w wario ar baratoi at ryfel?

**Y Gymru Iawn**

Ymddengys bellach na all yr ASau a'r ACau a gefnogodd yr Academi Filwrol yn Sain Tathan yn unfrydol ddychmygu dim ond dyfodol lle mae gwrthdaro rhyngwladol yn cael ei ddatrys drwy drais, lle derbynir y lladd a llurgunio, anobaith a dioddefaint a achosir i bobl ddiniwed gan filitariaeth, a lle anwybyddir y niwed parhaol i'r amgylchedd a achosir gan ryfeloedd a gwrthdaro. Ar y mater hwn, dydyn nhw ddim wedi gwneud dim i greu'r Gymru mae pobl ein gwlad am ei gweld – Cymru sy'n mynd i'r afael yn onest â chynhesu byd-eang a phroblemau amgylcheddol eraill, yn cefnogi hawliau dynol, sy'n dysgu i'n plant nad yw trais yn datrys dim byd, nad yw'n buddsoddi *yn y fasnach arfau, sy'n cefnogi* swyddi gwerthfawr, tymor-hir, ac sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus teilwng.

**Y diwedd?**

Pob clod i'r ymgyrchwyr craff yn erbyn holl broject academi Metrix. Pan fydd yr eliffant wedi ei gladdu o'r diwedd, gobeithio na chaiff ein ACau a'n ASau eu dallu byth eto gan y fath ystrywiau a'u denu i gymeradwyo penderfyniad 'swyddi am unrhyw bris' mor amddifad o bob moesoldeb. Efallai y byddai'r 'arch-hangar' £77 miliwn a adeiladwyd ac y rhoddwyd y gorau iddo yn RAF Sain Tathan yn gynharach y ganrif hon yn feddrod teilwng i eliffant gwyn Sain Tathan.




ffoto: genny bove

Ar Ebrill 26ain, daeth protestwyr o bob rhan o'r mudiad heddwch, o cyn belled â Wrecsam, Gwlad yr Haf a Chroesoswallt, i ymuno â rhyw 250 o wrthdystwyr ar orymdaith yng Nghaerdydd yn erbyn Academi Filwrol arfaethedig Sain Tathan. Siaradodd Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, yn deimladwy yn y rali, ynghyd â Davy McAuley, Cynghrair Wrth-ryfel Derry a siaradodd ar ran 9 Raytheon, gan dynnu sylw at ran Raytheon yng Nghonsortiwm Metrix yn Sain Tathan, a galw am weithredu uniongyrchol yn erbyn y masnachwyr arfau.

Dywedodd Jill Gough, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru, 'Dychmygwch fyd lle mae'r lluoedd arfog yn cael eu hyfforddi gan y masnachwyr arfau, a ninnau'n noddi eu helw. Dyna sut fydd hi go iawn – gan gychwyn yng Nghymru – oni allwn ni atal y sefydliad hyfforddiant milwrol arfaethedig yn Sain Tathan.'

Roedd Tîm Casglu Tystiolaeth yr Heddlu allan mewn grym, gyda chymorth Tîm Ysbïo o Flaen Llaw yr Heddlu Metropolitan, yn tynnu lluniau o bawb a phopeth mewn ffordd fygythiol iawn. Lluniwyd set ddwl o gyfyngiadau o dan Adran 12 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a rhoddwyd copi ysgrifenedig i bawb wrth iddyn nhw gyrraedd Parc Cathays. Dywedodd Genny Bove o Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam: 'Dylem oll fod yn ymwybodol y gellir rhoi cyfyngiadau fel hyn ar bob gwrthdystiad – nid dim ond gorymdeithiau – os caiff y llywodraeth ei ffordd ac ymestyn y deddfau sydd eisoes yn ymyrryd â'n hawl i brotestio.'

**heddweithredu:**

**Bydd yr ymgyrch yn parhau nes bod holl freuddwyd y rhyfelgarwyr wedi dod i ben.**

*** Gweler www.no2militaryacademy.com www.cynefinywerin.org i gymryd rhan ac i arwyddo'r ddeiseb/ Gweler hefyd www.gaggedanarchist.tk**

*** Mae pamffled Stuart Tannock, 'Academi Hyfforddiant Amddiffyn Sain Tathan a Dyfodol Cymru' ar gael gan CND Cymru neu i'w lawrlwytho o wefan Cynefin y Werin.**

*** Mae ymgyrch 'Dwedwch Na i'r Academi Filwrol' yn cyfarfod yn rheolaidd yng Nghaerdydd, cysylltwch ag Anne Greagsby am fwy o wybodaeth: t: 02920 626 287 sym: 07817513610 e: Annegre@aol.com**

*** Sgrifennwch at eich AC a'ch AS i fynegi'ch barn. Cadwch y mater yn y newyddion!**

# Plwtoniwm yn Hwylio Glannau Cymru

**Ddau fis yn hwyr, gadawodd llwyth masnachol cyntaf Prydain o blwtoniwm o Sellafield borthladd Workington ar ddiwedd mis Mai ar ei ffordd i Cherbourg. Llwythwyd rhyw 300kg o blwtoniwm, o dan reolau diogelwch caeth, ar fwrdd Atlantic Osprey – fferi geir ail-law wedi ei haddasu i'r diben, sydd heb rai o'r prif nodweddion diogelwch y bernir eu bod yn angenrheidiol yn achos llongau cludo-plwtoniwm eraill y llynges niwclear.**


Gohiriwyd y dyddiad hwylio gwreiddiol ym mis Mawrth pan gyhoeddwyd manylion y fordaith arfaethedig ym mhapurau newydd Prydain ar ôl i wybodaeth gael ei rhoi iddynt gan Greenpeace Ffrainc a Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment (CORE).

Roedd y plwtoniwm ar ei ffordd i waith MOX* Cadarache i gael ei droi'r danwydd niwclear MOX. Roedd y cwmni tanwydd Ffrengig Areva wedi sicrhau gwaharddeb gyfreithiol yn erbyn Greenpeace Ffrainc i atal gweithredwyr rhag dod o fewn 300 metr o'r llong ar y môr ac o fewn 150 metr iddi yn y dociau ac ar daith y plwtoniwm ymlaen drwy Ffrainc. Byddai torri'r waharddeb hon yn golygu dirwy o 75,000 ewro.

Ystyrir fod cludo plwtoniwm ar ffurf powdr deuocsid – deunydd gwych ar gyfer brawychwyr – drwy Fôr Iwerddon ac yna drwy Ffrainc yn anghyfrifol tost mewn cyfnod o gynnydd mewn gweithgaredd brawychol ym mhedwar ban y byd. Mae hefyd yn peri cryn embaras i Sellafield, gan ei bod hi'n debyg mai dim ond y cyntaf yw'r llwyth peryglus hwn o nifer o lwythi y bydd yn rhaid eu hanfon i ad-dalu gwneuthurwyr tanwydd MOX yn Ffrainc a Gwlad Belg am y plwtoniwm a ddefnyddiwyd o'u cyflenwadau nhw i gyflawni archebion am danwydd MOX a oedd wedi cael eu his-gontractio gan waith MOX Sellafield ei hun yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd problemau cynhyrchu cyson a pharahaus yn y gwaith Prydeinig. Mae'n bosibl fod rhagor o archebion eisoes wedi cael eu his-gontarctio a gallai mwy ddilyn yn y dyfodol.

Bydd tanwydd MOX a archebwyd ar gyfer gorsafoedd pwer niwclear yn y Swistir a'r Almaen yn golygu y bydd tri neu bedwar llwyth arall yn hwylio o Workington, prif borthladd plwtoniwm Prydain bellach.

* Cymysgedd yw tanwydd ocsid cymysg neu MOX o ocsidau plwtoniwm ac wraniwm naturiol, wraniwm a ailbroseswyd, neu wraniwm hesb sy'n ymddwyn yn debyg (ond ddim 'run fath) â'r porthiant wraniwm a gyfoethogwyd i lefel isel y dyluniwyd y rhan fwyaf o adweithyddion niwclear i'w dderbyn. Mae'n cael ei ddefnyddio yn yr adweithyddion dwr ysgafn sy'n fwyaf cyffredin fel cynhyrchwyr pwer niwclear. Mae'n ffordd o gael gwared o blwtoniwm graddfa-arfau sbâr, y byddid yn rhaid cael gwared ohono fel gwastraff niwclear fel arall. Ofnir y bydd normaleiddio defnydd masnachol tanwydd MOX yn cynyddu perygl ymlediad niwclear.
www.corecumbria.co.uk



## Calw ar Y(mgyrchwyr)DFA Caerdydd

Mae Ymgyrch Caerdydd i Ddileu'r Fasnach Arfau (YDFA) yn apelio am fwy o gefnogwyr gan fod angen mwy o bobl arno i allu gweithredu'n effeithiol. Mae'r grwp yn ei ddyddiau cynnar, a bu'n canolbwyntio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth ac arian (gyda chymorth caredig Côr Cochion Caerdydd ar ddau achlysur) yn ogystal â chymryd rhan yn yr ymgyrch yn erbyn Academi Filwrol Sain Tathan. Gobeithia YDFA Caerdydd ddosbarthu taflenni yn y Steddfod Genedlaethol ym mis Awst, a rhedeg stondinau ym mhrifysgolion Caerdydd yn yr hydref.
caatcardiff@gmail.com www.caatcardiff.blogspot.com

# Wraniwm yn Llygru Gogledd Cymru

Daethpwyd o hyd i olion wraniwm gan offer monitro aer yr elusen Emission Watch, am y tro cyntaf, mewn dwy ardal yn Sir y Fflint. Gosodwyd y dyfeisiau monitro, y naill i'r de o Fwcle, a'r llall yn ardal Spon Green, yn 2005 i fesur allyrriant odyn newydd Castle Cement, er na ddefnyddir unrhyw wraniwm o gwbl ar y safle hwnnw.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud ymchwiliad 'er mwyn sicrhau pobl nad oes bygythiad i'w hiechyd'. Maent wedi cyfeirio at y ffaith fod lefelau cymharol uchel o radon yng ngogledd Cymru – ac eto, dydy hynny ddim yn egluro, os mai canlyniad i ddirywiad radon yw'r wraniwm, sut na ddaethpwyd o hyd i unrhyw radio-niwclidau tan nawr.

Saif Capenhurst, y gwaith cyfoethogi wraniwm a redir yn awr gan Urenco, yr ochr draw i'r ffin o sir y Fflint. O 1952, cafodd wraniwm ei gyfoethogi ar y safle er mwyn darparu elfen hanfodol ar gyfer cynhyrchu pwer niwclear sifil ac arfau niwclear milwrol ill dau. Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddodd 'tîm glanhau niwclear' Capenhurst yn fuddugoliaethus fod project dymchwel mwyaf y diwydiant niwclear Prydeinig ar y safle wedi ei gwblhau.

# Condemnio Profion Taflegrau Pentywyn

**Mae CND Cymru wedi ymuno ag eraill sy'n ymgyrchu i atal y ras arfau yn y gofod i lwyr gondemnio profion diweddar gyda 'thaflegrau treiddiol' a saethwyd i mewn i fyncar tywod ar y safle profion taflegrau a redir gan QinetiQ ym Mhentywyn, Sir Gaerfyrddin.**

Mae'r profion hyn yn gwneud Cymru'n faes profion ar gyfer arfau 'defnydd-deublyg' a thechnolegau a fydd yn hyrwyddo'r ras arfau yn y gofod. Dywedir mai prawf Lleuad yw'r prawf yng Nghymru, ond fel mae NASA wedi dweud ers hydoedd, mae popeth a wneir gan sefydliadau 'archwilio'r gofod' a phob technoleg y byddant yn ei chreu at 'ddefnydd deublyg', sy'n golygu y byddant yn gweithredu fel system arfau gofod hefyd.

Dywedir fod Peter Truss, un o'r rhai sy'n gyfrifol am brofion taflegrau ym Mhentywyn, wedi dweud:* '... gyda'r cynnydd yn y dechnoleg y gallwn ei chymhwyso i'r problemau hyn, mae pob math o bosibiliadau yn ymagor.'

Yn 2002, roedd bom treiddiol, ffrwydro-byncar arall i fod i gael ei brofi ym Mhentywyn cyn yr ymosodiad ar Irac, ond ataliwyd y profion wedi gwrthwynebiadau gan bobl leol a phrotestwyr gwrth-ryfel.

Pe gellid anelu 'taflegryn treiddiol' at bwynt ar blaned arall, dim ond mater o amser fyddai hi cyn i'r fath daflegryn gael ei saethu at 'elynion' anufudd ar y ddaear o orsaf ofod filwrol.

Meddai Jill Gough, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru: 'Dydyn ni fodau dynol ddim fel pe baen yn dysgu dim. Y "ras ofod" yn y 1950s a'r 60s a borthodd ac a helpodd i ddatblygu ras arfau'r rhyfel oer. Mewn cyfnod pan y dywedir wrthym fod yn rhaid i ni ddysgu byw gyda llawer llai o adnoddau naturiol a gyda llygredd, tlodi, rhyfel ac anghyfiawnder, rydym yn lle hynny yn ymchwilio a dysgu ffyrdd newydd o ddod â gofid a dinistr i fywyd ar y ddaear, a hyd yn oed i blanedau eraill. Ai dyma'r hyn sy arnom ei eisiau yng Nghymru – bod yn rhan o'r broblem neu'n rhan o'r ateb?'

* www.news.bbc.co.uk/1/hi/sci/tech/7438270.stm
Gweler hefyd y Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod
t: 04011 +44 (207) 443 9502 www.space4peace.org
e: globalnet@mindspring.com

# Ardal Profion Milwrol Newydd yng Ngheredigion?

**Mae cwmnïau arfau yn gobeithio y sefydlir 'awyrofod gwahanedig parhaol' o gwmpas Parc Aberporth fel y gellir gwneud profion mynych ar awyrennau di-griw dros dir. Disgwylir ymgynghoriad cyhoeddus ynglwn â'r cynnig yn yr hydref. Y gofod o o dan sylw yw'r ardal rhwng Aberteifi, Castell Newydd Emlyn a Llandysul, yn ymestyn o bosib i Lambed. Gwnaed profion taflegrau dros Fae Ceredigion o ganolfan Aberporth ers ei sefydlu fel sefydliad profi arfau milwrol yn wreiddiol ym 1948.**

Telir am ymchwil i UAVau (Cerbydau Awyrol Di-griw) ac UCAVau (Cerbydau Ymladd Awyrol Di-griw) gan y lluoedd arfog yn bennaf. Mae'r cerbydau eisoes yn cael eu defnyddio gan yr UD ac Israel i ragchwilio ac ymosod. Cred llawer iawn mai'r genhedlaeth bresennol o awyrennau rhyfel fydd yr olaf i gludo peilotiaid dynol. Mae cwmni awyrofod Boeing wedi manteisio ar ei gysylliadau clos â Llywodraeth y Cynulliad (LlyC) i ddatblygu ei waith yn Aberporth. Mae gan Boeing Integrated Defense Systems, ail gwmni arfau mwya'r byd, drosiant blynyddol o $30.5 biliwn. Mae'n wir fod gan UAVau rai dibenion anfilwrol, ond mae'r syniad na fydd elfen filwrol i ymchwil UAV Boeing yn Aberporth yn chwerthinllyd.

Yn ôl rhestri LlyC, cwmnïau arfau yn bennaf sy'n ymwneud ag UAVau ac mae'r rhain yn cynnwys nid yn unig Boeing ond y cwmni technoleg amddiffyn Prydeinig, QinetiQ. Rhaglen 'Watchkeeper' y Weinyddiaeth Amddiffyn Brydeinig yw'r rhaglen UAV fwyaf yn Ewrop, ac roedd digwyddiad *'llwyddiannus iawn' ParcAberporth Unmanned Systems 2005* yn cynnwys ehediad Prydeinig cyntaf UAV mawr, yr Hermes 450 o Israel, fel rhan o'r Rhaglen 'Watchkeeper'.

Beth bynnag fo'ch teimladau ynglwn â'r cynlluniau hyn, **da chi**, cysylltwch â'ch cynrychiolwyr etholedig a rhowch wybod iddyn nhw.
**www.newcastle-emlyn.com/emlyn-uav-testing-zone**
Gwybodaeth gan Jeremy Clulow a Mike Godsell

## Cerbydau Awyrol Di-griw

Mae defnydd a datblygiau UAVau yn ddadleuol dros ben. Mae'r cerbydau ymosodol hyn yn cael eu hedfan yn fanwl gywir gan beilot ar y ddaear, a all fod gannoedd o filltiroedd i ffwrdd yn gwylio'r targed ar sgrîn gyfrifiadur. Defnyddir UAVau i ysbïo neu i danio arfau, ac mae ganddynt ddyfais otomatig sy'n eu galluogi i hedfan drwy gymylau neu osgoi taro yn erbyn adeiladau, tra'n dal i ufuddhau i orchmynion y peilot. Hyd yn oed o'u defnyddio i ddibenion sifil, byddent yn gorfod hedfan yn ddiogel yn yr un awyrofod ag awyrennau teithwyr, awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel, awyrennau bychain a hofrenyddion.

Felly, mae'n rhaid llunio systemau a fydd yn sicrhau fod yr UAVau yn gallu gweld ac osgoi awyrennau eraill ddydd a nos, ym mhob tywydd. I wneud hynny, mae angen awyrofod cwbl wag o unrhyw awyrennau ond rhai sy'n rhan o'r profion. Ar hyn o bryd, arfaethir sefydlu ffordd awyr rhwng Aberporth a maes tanio'r fyddin yng Nghrucywel, ond mae'n siwr y bydd angen mwy o awyrofod yn y man.

Mae gorllewin Cymru eisoes yn cael ei ddefnyddio gan awyrennau rhyfel confensiynol ac mae Aberporth wedi bod yn profi taflegrau a ffrwydron dros y môr ers degawdau. A fydd ymestyn y parth profion ar gyfer UAVau i'r tir ac uwch ein pennau yn destun pruder neu brotest? A fydd yr 'ymgynghoriad' a addewir yn unrhyw beth mwy na sioe?

# Enwi Ffermydd Epynt


**Daeth dros ddeg ar ugain o aelodau'r Gymdeithas i'r cwrdd ger gweddillion Capel y Babell ar Fynydd Epynt ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin 2008, pan gafwyd gwasanaeth dan ofal y Parch Guto Prys ap Gwynfor i gofio am y gymuned o Gymry Cymraeg a arferai fyw ar y mynydd, cyn i'r Fyddin ddwyn y tir yn 1940.**

Dywedodd bod hi'n bwysig ein bod yn ein hatgoffa ein hunain a'r genedl o'r hyn ddigwyddodd ar y mynydd er mwyn cadw mewn cof y gymuned a gafodd ei dinistrio gan fyddin a oedd yn honni ar y pryd ei bod yn ei hamddiffyn. Eglurodd mai celwydd oedd y tu cefn i ryfel megis y celwydd o amddiffyn cenedl tra mewn gwirionedd y gwrthwyneb oedd yn wir, wrth i dir gael ei ysbeilio a phobl gyffredin yn dioddef.

Darllenodd y Parch T James Jones ei awdl fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd sy'n sôn am fachlud yr haul dros Fynydd Epynt, ac yn sôn hefyd fod tir Mynydd Epynt yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer milwrol a mai dim ond adfeilion y ffermydd sydd ar ôl. Teimlodd sawl un wefr wrth glywed geiriau'r awdl yn cael eu hadrodd y fan a'r lle yr ysbrydolwyd hwynt gan y prifardd ei hun.

Mae'r Fyddin wedi cytuno i ddymuniad Cymdeithas y Cymod i ail osod arwyddion gyda g enwau Cymraeg y ffermydd ar Fynydd Epynt. Eglurodd y Parch Herbert Hughes, sydd wedi cofnodi hanes y troad allan o'r ffermwyr yn ei lyfr *Mae'n ddiwedd byd yma*, ei fod wedi bod yn pwyso ar y fyddin ers blynyddoedd i osod yr enwau yn ôl ar y ffermydd. Dywedodd ei fod yn falch o weld bellach fod yr enwau wedi eu hadfer. Yna aeth yr aelodau o gwmpas y mynydd i weld yr arwyddion newydd ar y ffermydd megis "Gelli-gaeth" a "Cefnbryn Uchaf".

**Arfon Rhys**



**Wyneb trist Cefnbryn Uchaf, Mynydd Epynt lle mae milwyr yn dysgu lladd heddiw**

# Profion WH – busnes fel arfer

**Cafodd mwy na 6,000 o ffrwydron Wraniwm Heb (WH) eu tanio ar y maes profion milwrol yn Dundrennan (Dumfries a Galloway) rhwng 1982 a 2004. Mae'r sylwedyddion o Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn Porton Down wedi datgelu fod llygredd WH ar y safle yn awr yn torri'r terfynau 'diogelwch' y cytunwyd arnynt.**

Mae Gweinidog Amgylchedd yr Alban, Michael Russell, wedi ymateb drwy leisio ei wrthwynebiad i unrhyw brofion gydag arfau WH ar dir yr Alban. Mae'r hen ffrwydron bellach yn cyrydu ac mae'n anodd dod o hyd iddyn nhw 'er gwaethaf chwilio'n helaeth'. Mae Dr. David Lowry, ymgynghorydd polisi amgylcheddol, yn poeni, meddai '. . . na chawn wybod canlyniadau llawn, tymor-hir y llygredd yma am flynyddoedd. Ond gwyddom eisoes fod y ffrwydron WH a daniwyd yn ystod goresgyniad Irac wedi achosi canlyniadau difrifol.'

Metel caled iawn yw WH sy'n cael ei ddefnyddio mewn ffrwydron i'w galluogi i dreiddio ymhellach. Sgîl-gynnyrch ymbelydrol y diwydiant niwclear ydyw, radio-niwclid sy'n gollwng pelydrau alffa, ac y mae'n wenwyn ymbelydrol a chemegol. Mae llygredd WH wedi cael ei gysylltu a g amrywiaeth o afiechydon yn cynnwys problemau gyda'r arennau, mathau o ganser ac anhwylderau niwrolegol yn ogystal â namau geni. Ar ôl iddo gael ei ddefnyddio, bydd llwch WH yn cael ei wasgaru dros arwynebedd eang ar faes y gad, ac mae'n effeithio'n andwyol ar iechyd milwyr a sifiliaid ymhell wedi i'r gwrthdaro ddod i ben.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i wneud profion arfau WH yn Dundrennan. Mae'r Ymgyrch yn Erbyn Wraniwm Hesb (CADU) a'r Ymgyrch Ryngwladol i Wahardd Arfau Wraniwm yn gweithio i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r broblem, er mwyn rhoi gwybodaeth ger bron Cynulliad Cyffredinol y CU a fydd yn trafod WH yn yr hydref.

Mae'r Senedd Ewropeaidd wedi mabwysiadu cynnig gyda 491 o blaid, 18 yn erbyn a 12 yn atal eu pleidlais, yn galw am foratoriwm ar ddefnydd arfau WH a thrwy hynny gynyddu'r pwysau am gytundeb rhyngwladol i'w gwahardd. Mae'r cynnig 'yn ailategu yn gryf ei alwad ar i Aelod Wladwriaethau'r UE a gwledydd NATO osod moratoriwm ar ddefnyddio arfau wraniwm hesb ac i ailddyblu ymdrechion i sicrhau gwaharddiad byd-eang'.

www.cadu.org.uk t: 0161 273 8293 e: info@cadu.org.uk

# Hedfan isel milwrol yn dal i wneud bywyd yn annioddefol


**Mae perchennog canolfan farchogaeth yn yr Alban yn dod ag achos llys yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn am £100,000 ar ôl honni fod hedfan isel gan awyrennau milwrol gerllaw ei busnes magu ceffylau yn gwneud bywyd yn annioddefol.**

Mae'r rhan o ddeheubarth yr Alban lle mae hi'n byw wedi bod yn ganolbwynt dadl ers amser maith ynglwn â hedfan isel, gyda honiadau y gallai awyrennau rhyfel a hofrenyddion milwrol fod wedi cyfrannu at farwolaeth beiciwr modur.

Mae'r ardal dan sylw wedi ei dynodi'n Ardal Hedfan Isel (AHI) fel y mae rhan helaeth o ganolbarth a gorllewin Cymru. Caniateir i awyrennau hedfan mor isel â 100 troedfedd.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dweud wrthym eu bod yn defnyddio radar symudol 'Skyguard' i sicrhau na thorrir y rheolau. Dysgodd grwp pwyso'r Gynghrair Geltaidd y bu mwy na 100,000 o gwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn yr ugain mlynedd hyd at 1997.

Defnyddir rhannau o'r Alban a Chymru ar gyfer hedfan isel gan yr Awyrlu Brenhinol ac awyrluoedd tramor am fod hedfan mor isel wedi ei wahardd gan nifer o wledydd NATO. Mae rhai gwledydd fel yr Unol Daleithau wedi rhoi'r gorau i'r arfer i bob diben; mae'n well ganddynt ddefnyddio ffrwydron wedi eu hanelu'n strategol, neu 'fomiau clyfar', sy'n cael eu gollwng o uchder mawr.



**heddweithredu:**

**Os ydy hedfan isel milwrol yn eich gofidio neu os ydych am gwyno am ddigwyddiad neilltuol, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a chwynwch – neu fel arall, byddant yn credu fod pawb yn hapus â'r sefyllfa fel y mae. Sgrifennwch at: Ministry of Defence Directorate of Air Staff, Complaints and Enquiries Unit, Level 5, Zone H, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB**

**t: 0207 218 6020 ff: 0207 218 2680 e: cro.wales@stc.raf.mod**

# Cyngerdd dros Heddwch

Ar noson i'w chofio ym mis Mehefin ger y Fenni, mwynhaodd cynulleidfa yn Neuadd Gymuned Llan-ffwyst, a oedd dan ei sang, gyngerdd ardderchog o gerddoriaeth werin a chyfoes i gefnogi Cerddorion yn erbyn Arfau Niwclear (MANA). Roedd y cyngerdd, a drefnwyd gan y gantores Frankie Armstrong a'i ffrindiau, yn cynnwys perfformiadau gan Dylan Fowler, Gill Stevens, Abercapella dan arweiniad Chrys Blanchard, Sarah Harman a Shanee Taylor.

Ers 25 mlynedd, mae Cerddorion yn erbyn Arfau Niwclear (MANA) wedi bod yn trefnu cyngherddau dros heddwch. Mae cerddorion byd-enwog a llai adnabyddus wedi cyfrannu eu doniau i'r achos. Mae'r mudiad heddwch yn Lloegr wedi elwa'n fawr iawn, nid yn unig yn ariannol ond drwy ennill cefnogaeth hefyd.

Gobeithio y gellir sefydlu MANAW yng Nghymru, ond er bod posibiliadau mawr iawn i greu cefnogaeth i'n mudiad heddwch, ac i CND Cymru yn enwedig, gan bob math o gerddorion a cherddoriaeth, does neb hyd yma wedi gwirfoddoli i fod yn drefnydd. Mae Denis O'Neal, Caryl Parry Jones a Frankie Armstrong eisoes yn fodlon helpu. Yn ddelfrydol byddai'n dda cael rhywun sy'n siarad Cymraeg, ond dydy hynny ddim yn angenrheidiol.

Os gallwch helpu neu os oes gennych awgrym, da chi, cysylltwch â:
e: georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk neu t: 01446 774 452.

adolygiad

# Edrych ymhellach na'n trwynau

**Mae'n bosibl fod llawer o bobl yn gwybod fod Awstria yn wlad ddi-niwclear, ond mae llai yn gwybod iddi ddod yn agos iawn at fod â'i gorsaf ynni niwclear ei hun, cyn i'r Ddeddf Gwahardd Ynni Atomig gael ei phasio. Ym 1978, roedd gorsaf ynni niwclear wedi ei chwblhau ac yn 'barod i fynd' yn Zwentendorf, ond yn union cyn iddi ddechrau gweithredu, cynhaliwyd refferendwm ymhlith pobl Awstria ac roedd mwyafrif yn gwrthwynebu. Yn rhyfeddol, chafodd yr adweithydd parod byth mo'i ddefnyddio.**

Mae Awstria a'r Awstriaid yn ymfalchïo yn yr hyn maent wedi ei gyflawni, a chynhaliwyd llawer o gyfarfodydd a chynadleddau yn erbyn defnydd ynni niwclear yn Awstria dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd un yn Salzburg yn 2005, sef *'Diweddaru'r Gyfraith Ryngwladol*: cynhadledd ar yr hawl ddynol i amgylchedd diogel a iachus a chyfrifoldebau gweithredwyr cyfleusterau niwclear o dan y gyfraith ryngwladol'. Yn awr, mae papurau'r gynhadledd honno wedi cael eu cyhoeddi fel archwiliad o'r ffyrdd y gellir addasu'r gyfraith i gynnwys yr holl amrediad o beryglon a gwir gostau ynni niwclear.

Er y byddwn ni yng Nghymru efallai'n meddwl am ddyfarniadau'n ymwneud ag *arfau* niwclear a'r gyfraith ryngwladol yn y lle cyntaf (a Barn Gynghorol y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ar Gyfreithlondeb neu Anghyfreithlondeb Arfau Niwclear), swyddogaeth a lle cyfleusterau *ynni* niwclear yn y Gyfraith Ryngwladol a oedd dan sylw yng nghynhadledd *Diweddaru'r Gyfraith Ryngwladol*. Gwelid y gynhadledd fel estyniad i Wrandawiad Wraniwm y Byd, a gynhaliwyd yn Salzburg hefyd, ym 1992, lle rhoddodd tystion arbenigol dystiolaeth ynglŷn ag effeithiau iechyd, amgylcheddol, cymdeithasol a heddwch-aflonyddol ynni niwclear.

Mae'r erthyglau'n ymdrin â dau brif bwnc: y peryglon a greir gan orsafoedd ynni niwclear (a'r atebolrwydd am anafiadau a niwed a achosir ganddynt) a statws ac argoelion ynni niwclear yn Ewrop. Mae'r llyfr yn datgelu elfennau annigonol mewn 'ecwiti traws-genhedlaeth', rheolau cystadlu, trefniadau atebolrwydd a iawndal a rheolau cyfreithiol eraill sy'n rheoli gweithgareddau niwclear. Cyfranwyd ysgrifau gan 24 o ysgolheigion o fri, gwyddonwyr, cyfreithwyr, arbenigwyr niwclear ac aelodau Sefydliadau An-lywodraethol (SALau) blaenllaw. Mae'r dadleuon cyfreithiol yn hynod ddiddorol.

Dyfynnir dyfarniadau llys enghreifftiol a allai fod o ddiddordeb ac o fudd i rai sy'n byw yng nghyffiniau cyfleusterau niwclear a llwybrau cludiant, cyfreithwyr a SALau. Bydd y gyfrol o fudd i lunwyr penderfyniadau sydd am ddarganfod y ffordd orau o ddiogelu iechyd y bobl a'r amgylchedd. Mae *Updating International Law* yn arf aml-bwrpas ar gyfer gweithwyr academaidd, gweithredwyr, y cyfryngau a rhai sy'n penderfynu. Mae'n taflu goleuni ar wir gostau ynni niwclear ac yn cyfrannu at y ddadl ynglŷn ag 'adfywio niwclear'.

**Emily Freeman**

**Updating International Nuclear Law: Papers Derived from the Conference on the Human Right to a Safe and Healthful Environment and the responsibilities Under International Law of Operators of Nuclear Facilities held in Salzburg, Austria, October 20-23 2005. Golygwyd gan Heinz Stockinger, Jon M. Van Dyke, Michael Geistlinger, Sarah K. Fussek a Peter Machart. NWV 2007**

**ISBN 978-90-5095-680-2**

amddiffyn taflegrau yr 'UD

# Ymgyrchu i atal yr UD yng Nghanolbarth Ewrop

**Mewn dwsinau o ddinasoedd yn mhedwar ban y byd, daeth 'dydd ymprydio byd-eang' ar Fehefin 22ain â phobl allan ar y strydoedd mewn gwrthdystiad creadigol i gefnogi'r 70% o bobl yn y Weriniaeth Siec sy'n gweithio'n galed i atal cynlluniau'r UD i leoli cyfleuster radar yn eu gwlad. Yn ôl llywodraeth yr UD, diben y system amddiffyn taflegrau yw amddiffyn y wlad rhag ymosodiadau posibl gan 'wladwriaethau drwg', yn enwedig Iran.**

Ers Mehefin yr 17eg mae stondin barhaol wedi cael ei gosod yn Sgwâr Wenceslas, Prâg gan y mudiad 'No to Bases Initiative'. Mae'r protestwyr yn hel enwau ar eu deiseb ac yn dosbarthu gwybodaeth a sticeri i'r cyhoedd.

Mae'n debyg mai'r trefniant yng Ngwlad Pwyl yw y bydd yr UD yn helpu'r Pwyliaid i foderneiddio eu peiriant milwrol yn gyfnewid am gael lleoli taflegrau'r UD yno. Fodd bynnag, datgelwyd ar ddiwedd mis Mehefin y gallai fod oedi gyda'r cynllun tan 2013 am fod angen 'gwneud profion pellach' ar y taflegrau. Mae'r systemau'n cael eu datblygu gan nifer o gwmnïau arfau adnabyddus, yn cynnwys Raytheon, Thales, Northorp Grumman a Lockheed Martin.

Mae Lithwania hithau wedi cael ei henwi fel lleoliad posibl ar gyfer 'tarian daflegrau' yr UD.

### Yn y nefoedd fel ar y ddaear

Meddai Bruce Gagnon o'r Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod, un o'r cannoedd a fu'n ymprydio ar Fehefin 22ain:

'Byddai cyfleuster Star Wars arfaethedig yr UD yn y Weriniaeth Siec yn ddarn allweddol yng nghynllun mwy y Pentagon i 'reoli a thra-lywodraethu ar' y gofod. Byddai'r radar Siec yn helpu i gyfathrebu â lloerennau milwrol sy'n cylchdroi ac yn rhoi i'r UD y gallu i ymosod gyntaf ar Rwsia. Byddai 'rhyng-gipwyr amddiffyn taflegrau' gerllaw yng Ngwlad Pwyl yna'n gallu taro unrhyw daflegrau y gallai Rwsia eu tanio mewn ymateb i hynny.'

'Mae'r ras arfau newydd hon yn y gofod wedi bod ar y gweill ers tro byd. Mae'r Pentagon yn amlwg yn deall y bydd pwy bynnag fydd yn rheoli'r gofod yn rheoli'r Ddaear islaw.'

'Ein gwaith ni yw eu hatal. Dylai ein trethi gael eu gwario ar ofal iechyd, addysg a datrys problem newid hinsawdd, nid ar greu ras arfau farwol a dadsefydlogol yn y nefoedd.'

Ym mis Gorffennaf, bygythiodd Rwsia ymateb yn 'filwrol' wedi sôn fod yr UD wedi arwyddo cytundeb i adeiladu rhan o'i 'tharian daflegrau' yn y Weriniaeth Siec.

**heddweithredu:**

*** Os nad ydych yn ymweld â Phrâg, da chi, arwyddwch y Ddeiseb ar eich cyfrifiadur ac anfonwch negeseuon o gefnogaeth at No to Bases Initiative: www.nezakladnam.cz**

*** Da chi, sgrifennwch at eich ASE, Y Senedd Ewropeaidd, Rue Wiertz ASP14E169 BE-1047 Brwsel, Gwlad Belg i'w hatgoffa:**

**- fod y mwyafrif o Sieciaid yn gwrthwynebu lleoli rhyng-gipwyr taflegrau'r UD yn eu gwlad**

**- ei bod yn annerbyniol i aelod wladwriaeth benderfynu ar fater mor bwysig heb ymgynghori ag aelodau eraill yr UE**


**Os gallwch, anfonwch gopi o'ch llythyr at Jan Tamas: jan.tamas@humanisti.cz**

# Prydain – yn dal i fod yn gludydd awyrennau yr UD

**Mae'r Ymgyrch dros Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd yn adrodd fod cynlluniau adeiladu newydd ar y gweill yn USAF Mildenhall (Suffolk) gydag ychwanegiad cyfleuster cyflenwi tanwydd i awyrennau milwrol gwerth $75 miliwn a chytundeb i godi tai newydd ar gyfer lluoedd yr UD a datblygu ysbyty gwerth $11 miliwn.**

Yn USAF Fairford (Swydd Gaerloyw), y bydd gweithredwyr o Gymru'n ei gofio fel y man y lansiwyd ymosodiadau milwrol ar Irac ohono yn 2003, mae projectau gwerth $26 miliwn yn cynnwys rampiau parcio awyrennau a storfeydd cadoffer ar y gweill yn ogystal ag 'ymgais ailadeiladu'r maes awyr' gwerth $143 m.

'Ni sy'n dewis trefnu'r byd fel hyn. Yn lle datrys gwrthdaro drwy ddulliau milwrol treisgar ac arfau mwyfwy erchyll, gallem ddewis llwybr diplomyddiaeth a chyd-weithrediad a dargyfeirio adnoddau i ddiwallu anghenion dynol sylfaenol pawb.'



newyddion pwer niwclear

## Wylfa

**Mae ofnau ynglwn â chynhesu byd-eang yn cael eu defnyddio i 'newid meddyliau' am beryglon pwer niwclear ac mae cwmnïau trawswladol yn eiddgar i gyfranogi.** Deëllir fod y cwmni Ffrengig, EDF Energy, wedi prynu tir amaethyddol o gwmpas Wylfa (Ynys Môn), gan ddisgwyl y bydd y llywodraeth yn cymeradwyo adeiladu gorsaf newydd ar yr ynys.

### Problemau

Mae asiantaeth diogelwch niwclear Ffrainc, ASN, wedi datgelu cyfres o ddiffygion yn adeiladwaith adweithydd yn Normandi a oedd yn cael ei ystyried yn batrymlun ar gyfer y genedlaeth nesaf o orsafoedd EDF. Cafodd ASN fod chwarter yr asiadau yn leinin dur yr adweithydd yn israddol a daeth o hyd i holltau yn y sail goncrid. Daeth awdurdod diogelwch y Ffindir o hyd i ddiffygion tebyg yn yr unig adweithydd arall o'r math hwn sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Gallai oedi tebyg a chynnydd yn y costau ym Mhrydain wneud llanast o raglen adeiladu niwclear newydd y llywodraeth Brydeinig.

### Rhy ddrud i'w fesur

Mae Pobol Atal Wylfa B (PAWB) wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn unrhyw benderfyniad i adeiladu gorsaf newydd ar y safle. Nodant fod ffigurau ynglwn â chyflogaeth leol a'r berthynas rhwng Wylfa B ac Anglesey Aluminium (un o brif ddefnyddwyr trydan yr ynys) yn gam-arweiniol. Maent yn tynnu sylw at beryglon iechyd cynhyrchu pwer niwclear, gwendidau anorfod unrhyw gynlluniau argyfwng, a'r bygythiad gan 'frawychwyr'.

### Iechyd

Mae PAWB yn galw sylw hefyd at ymchwil a wnaed ar ran llywodraeth yr Almaen a gafodd gynnydd o 117% o achosion o lewcemia mewn plant ifanc yn byw gerllaw pob un o 16 gorsaf niwclear fwyaf yr Almaen rhwng 1980 a 2003. Darganfu ail astudiaeth o'r Almaen a gyhoeddwyd yn *Environmental Health Perspectives* fod teirgwaith cymaint o lewcemia ymhlith plant yn byw o fewn pum cilometr i orsaf niwclear Krümmel ger Hamburg.

Yn y cyfamser, mae deddfau cynllunio Prydain yn cael eu diwygio er mwyn ei gwneud hi'n haws adeiladu gorsafoedd pwer newydd. Dywedir na fydd gan bobl leol nemor ddim dylanwad yn awr 'heblaw am allu dewis lliw drysau'r tai bach'.

## Hinkley Point

YNNI NIWCLIAR? DIM DIOLCH

**Mae Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf, sy'n wynebu'r Barri, Ogwr a Phorthcawl ar draws Môr Hafren wedi cael ei ddethol fel safle posibl ar gyfer adweithydd niwclear 'newydd'. Caewyd adweithydd Hinkley A yn 2000 yn sgîl pryderon difrifol am ei ddiogelwch.**

Mae Hinkley B yn dal i fod ar agor, gan gyfrannu at statws Môr Hafren fel môr mwyaf llygredig â thritiwm y byd. Datgelodd ymchwil fod llygredd ymbelydrol wedi cynyddu nifer y marwolaethau o ganser, o Minehead gerllaw i Burnham. Mae Awdurdod Iechyd Gwlad yr Haf yn cydnabod fod marwolaethau o ganser y fron wedi dyblu yng ngogledd Burnham, a daeth Gwasanaeth Gwybodaeth Canser De-orllewin Lloegr o hyd i 30% yn fwy na'r disgwyl o achosion canser y fron , er na allent brofi fod cysylltiad rhwng hynny â gwastraff o Hinkley.

### Hollti

Mae rheolwyr Hinkley B wedi cyfaddef fod sawl hollt yn y briciau arafu graffid yng nghraidd yr adweithydd. Gallai'r holltau hyn oedi neu atal y broses o fewnosod y rhodenni rheoli a ddefnyddir i gau'r adweithydd i lawr mewn argyfwng. Gallai'r holltau eu hunain greu argyfwng drwy achosi gor-dwymo o'u cwmpas. Mae Hinkley B i fod i gau yn 2011 ond yn rhyfedd iawn, mae Ynni Prydeinig wedi awgrymu yr hoffent ymestyn ei bywyd gweithredol am ddeng mlynedd arall.

### Oldbury

I fyny'r afon, mae'r hen adweithydd yn Oldbury, Caerloyw wedi cael ei gysylltu â chlwstwr lewcemia a ddarganfuwyd yng Nghas-gwent gerllaw. Mae llu o broblemau technegol yn yr orsaf, yn cynnwys creiddiau adweithydd brau (y gwaethaf o blith yr adweithyddion Magnox), llestri pwysedd sy'n hollti ac ymsuddiad.

### heddweithredu:

**Mae Stop Hinkley yn croesawu cefnogaeth unigolion a grwpiau sy'n cefnogi'r achos. Cysyllter â:**
**Jim Duffy t: 0208 395 6191 - sym: 07968 974 805**
**e: contactval@stophinkley.fsnet.co.uk**
**Gweler www.stophinkley.org**
**hefyd: Yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel: www.llrc.org**

## Trawsfynydd

**Mae'r gwaith manwl o ddadgomisiynu'r orsaf bwer niwclear ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn parhau. Mae rhifyn mis Mehefin o 'clear site' - cylchlythyr gweithwyr Trawsfynydd – yn dweud fod rhan olaf y rhaglen i ostwng uchder y bwyleri yn awr wedi ei chwblhau.**

Rhoddir pwys dyledus i faterion iechyd a diogelwch ar y safle, gyda'r geiriau 'niwclear' ac 'ymbelydredd' yn cael eu defnyddio cyn lleied â phosib yn y llenyddiaeth. Mae ymchwiliad ar y gweill i 'leithder' annisgwyl yn adeilad adweithydd 2 – bydd yr adeilad yn cael ei 'garthu' ag aer sych. Ymwelodd cwmni peirianneg niwclear o'r Ffindir â'r safle ym mis Mai, ac ymwelodd staff o Drawsfynydd â gwaith ailbrosesu a phwer niwclear Dounreay i ddysgu am effeithiau cau gweithfeydd ar yr economi leol a thrafod y problemau. Bwriedir cwblhau gwaith dadgomisiynu Dounreay yn 2036 a bydd cau'r orsaf yn effeithio ar 25% o'r boblogaeth o fewn yr ardal yrru-i'r-gwaith. Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tw'r Cyffredin yn gwrthod credu'r amcangyfrif swyddogol gwreiddiol o £73 biliwn ar gyfer dadgomisiynu holl orsafoedd pwer niwclear Prydain. Dywedir fod y costau yn cynyddu ar garlam.

Hyd yn oed pan fyddant wedi cau, bydd ar safleoedd niwclear angen gwybodaeth arbenigol a staff i'w monitro, ac i ailbacio gwastraff niwclear, gan y byddant wedi eu llygru am byth.

## Raytheon – y gwir droseddwyr

**Cynhaliwyd gwrthdystiadau yng Nghaerdydd a ffatri Raytheon Brychdyn yng ngogledd ddwyrain Cymru i gefnogi 9 Raytheon, a oedd ger bron llys yn Derry, Gogledd Iwerddon ym mis Mehefin. I gymeradwyaeth fyddarol cefnogwyr ym mhedwar ban y byd, penderfynodd y rheithgor yn unfrydol fod 9 Raytheon yn ddieuog o dri chyhuddiad o niwed troseddol yn swyddfeydd Raytheon, Derry.**

Roedd y naw protestiwr gwrth-ryfel wedi meddiannu a chau swyddfeydd y cynhyrchwyr arfau Raytheon yn Derry ar y 9fed o Awst 2006 fel rhan o brotest ehangach yn erbyn cyfraniad Raytheon at ymosodiad bomio Israel ar Libanus, ac yn y rhyfeloedd sy'n parhau yn Irac ac Afghanistan. Drwy'r achos llys, mynnodd y naw fod eu gweithredoedd yn gyfreithlon fel ymgais i atal troseddau rhyfel.

### Bomiau ffrwydro byncar

Meddai un o'r naw, Colm Bryce:

'Rydym yn croesawu'r fuddugoliaeth hon i ni a'n teuluoedd, ond carem ei chysegru i'r teuluoedd Shaloub a Hasheem o Qana yn Libanus, a gollodd 28 o'u perthnasau agosaf ar y 30ain Gorffennaf 2006 oherwydd un o fomiau 'ffrwydro byncar' Raytheon .'

'Eu colled annychmygadwy nhw oedd y peth pennaf yn ein meddwl pan weithredon ni fel y gwnaethom ar y 9fed o Awst, a bydd yr anghyfiawnder y maen nhw a'r miloedd lawer o ddioddefwyr troseddau rhyfel yn Libanus, Palesteina, Irac ac Afghanistan wedi eu dioddef yn ein sbarduno i barhau i ymgyrchu yn erbyn rhyfel ac yn erbyn y fasnach arfau sy'n elwa arno.'

### Elw budr

Ychwanegodd ei gyd-weithredydd, Eamonn McCann: 'Mae pobl Qana yn gymdogion i ni. Plant ein cymdogion yw eu plant nhw. Rhacsiwyd swyddfa Raytheon er mwyn helpu i amddiffyn ein cymdogion. Cafodd y llys nad oedd hynny'n drosedd. Dyna oedd sylwedd achos Raytheon.'

'Ein targed erioed oedd Raytheon, fel endid corfforaethol, a'i gyfranddalwyr a'i gyfarwyddwyr sy'n elwa ar ofid a marwolaeth.'

'Does does gan y rheini sydd wedi dweud eu bod yn cefnogi presenoldeb Raytheon yn Derry ar y sail nad yw'r cwmni yn Derry yn cynhyrchu arfau ddim lle i guddio bellach. Rydym wedi sefydlu nid yn unig fod ffatri Derry yn chwarae rhan mewn cynhyrchu arfau ond ei bod, fel rhan o Raytheon yn ei grynswth, yn gyfranog mewn troseddau rhyfel.'




'Galwn ar ein holl gynrychiolwyr etholedig yn Derry, ac ar ddinasyddion Derry, i ddweud yn awr, heb flewyn ar eu tafod, nad oes croeso i'r troseddwr rhyfel Raytheon yn ein dinas.'

'Galwn ar swyddfa'r Twrnai Cyffredinol a Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ngoleuni'r ddedfryd hon, i agor ymchwiliad i weithgareddau Raytheon yn ei wahanol ffatrïoedd ledled y DU, gyda'r bwriad o bennu a yw Raytheon, fel y dywedwn ni ei fod, yn gwmni troseddol.'

'Rydym oll yn credu mai dyma'r peth gorau a wnaethom yn ein bywydau.'

Y cwmni arfau Raytheon yw prif aelod Consortiwm Metrix a ddewiswyd gan y llywodraeth Brydeinig i adeiladu a rhedeg yr 'Academi Filwrol' £11 biliwn yn Sain Tathan, de Cymru.

# dyddiadau dyddiadur

## Awst

**2–9 Caerdydd.**
**Yr Eisteddfod Genedlaethol – Dewch i'n gweld ni yn y Babell Heddwch**

**6 Eisteddfod Cenedlathol** 2pm Pabell Cytûn: **Dydd Hiroshima** – Gwasanaeth Coffa a drefnir gan Gymdeithas y Cymod, gyda'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor.

**6 Casnewydd (Gwent)**
**Dydd Hiroshima. Coffâd** - Bydd Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid yn cwrdd am 6.30pm ar lan Llyn Parc Tredegar i wasgaru blodau a darllen cerddi coffa. Croeso i bawb.

**9 Dydd Nagasaki**

**23 Llandudno (Cylch yr Orsedd, Bro Hapus )**
**Picnic Heddwch yn y Parc** hwyl a pethau am bawb ! 2pm. pwnc y blwyddyn hwn - teisen!
Croeso i bawb. cys:Graham Morgan e: morganpostcards@btinternet.com

## Medi

**8 Penyberth, Penrhos, Lleyn**
**Cynnau fflam heddwch** i atgoffa'r gwleidyddion fod academi filwrol arfaethedig Sain Tathan a'r buddsoddi diweddaraf mewn hyfforddiant hedfan milwrol yn RAF Valley mor niweidiol ag oedd ysgol fomio Penyberth i ddyfodol Cymru e: post@cymdeithasycymod.org.uk

**10-11 Gregynog**
**Adeiladu ymddiriedaeth mewn trawsnewid gwrthdaro**
Cynhadledd a noddwyd ar y cyd gan y ganolfan ar gyfer Astudio Radicaleiddio a Thrais Gwleidyddol Cyfoes (CSRV) a Sefydliad Astudiaethau Rhyngwladol Coffa David Davies (DDMI), Prifysgol Aberystwyth. Archwilio swyddogaeth adeiladu ymddiriedaeth mewn trawsnewid gwrthdaro, yn enwedig mewn perthynas â gwrthdaro treisgar 'brawychol'. Siaradwyr yn cynnwys: Yr Athro Nicholas Wheeler, Prifysgol Aberystwyth, Yr Athro Geoffrey Hosking, Coleg y Brifysgol, Llundain, Yr Athro Karin Fierke, Prifysgol St Andrews, Yr Athro John Tirman, MIT, Jo Berry a Patrick McGee, Robert Lambert, sefydlydd yr Uned Gysylltu Fwslimaidd, Arzu Merali, Y Comisiwn Hawliau Dynol Islamaidd. Cysyllter â: Richard Jackson e: rsj@aber.ac.uk neu Elaine Lowe e: ell@aber.ac.uk t: 01970 622 387

**21 Caerdydd Dydd Heddwchyr CU**
Diwrnod o ddigwyddiadau i ddathlu Dydd Heddwch y CU. Croeso i bawb. Cysyllter â: Frances Ballin t: 02920 765 077 e: francesballin2@yahoo.co.uk

**22 Caerfyrddin**
**Heddwch a Hanner – tro drwy hanes heddychiaeth yng Nghymru** gyda Dr Huw Griffiths, Gwesty'r Boar's Head. Trefnwyd gan Gell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod. Croeso i bawb. Mererid Hopwood sym: 07855 868077 e: post@cymdeithasycymod.org.uk

## Hydref

**2 Dydd Di-dreisedd Rhyngwladol** (Penblwydd Gandhi)

**12 Penarth**
**Pam ddylai Cristnogion Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau?**
Siaradwr: Alun Morinan, Cyd-drefnydd Rhwydwaith Cristnogol Ymgyrch Dileu'r Fasnach Arfau. 7.30pm Neuadd Eglwys Fethodistaidd y Drindod, Woodland Place. Rhwydwaith Cristnogol YDFA Penarth t: 029 2071 1943

**14 Abertawe** 7:30pm
**Cyfarfod Cyhoeddus gyda Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig**
Canolfan Amgylchedd Cysyllter â: Brian Jones t: 01792 830 330 swanseacnd@btinternet.com

**17 Nant Gwrtheyrn, Gwynedd**
Gwylnos Cymdeithas y Cymod 5pm Croeso i Bawb
e: post@cymdeithasycymod.org.uk

**18-19 Bangor**
**2008 Gwyl Heddwch Cymru** 10am Sadwrn tan 4pm dydd Sul, Ysgol Addysg Gydol Oes/Hysbyseg, Stryd y Deon. Sgyrsiau, dadleuon, gweithdai a gig nos Sadwrn yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy. t: 01248 490 715

**18–19 Llundain**
**Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig** www.cnduk.org/conference
e: officemanager@cnduk.org
t:020 7700 2393

**23 Caernarfon** 7.30pm
**Cyfarfod cyhoeddus – Nid Niwclear mo'r Ateb.** Siaradwyr Dylan Morgan (PAWB) a Neil Crumpton (FoE Cymru) Festri Capel Salem, trefnwyd gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon
e: benica@gn.apc.org

**24 Dydd y CU** www.un.org/events/unday/2005/index.html

**26-27 Gwarchae Mawr ar SAA Aldermaston** Cyrraedd ddydd Sul o 1pm. Gwarchae fore Llun. Mwy o wybodaeth: www.tridentploughshares.org t: 07804 640 643 gwel. tud. 6. Efallai y bydd trefniadau cludiant lleol os bydd digon o ddiddordeb. Cysylltiadau: Gogledd-ddwyrain: 0845 330 4505; Gogledd-orllewin: Anna Jane Evans 0790 154 5114; De: Brian Jones (gweler cysylltiadau CND Cymru); Canolbarth: Lotte Reimer 01970 610 185 lotte.reimer@btinternet.com

**28 Caerdydd**
**Bore Coffi gyda stondinau ac arddangosfa** 10.30am–12.30pm; am 11.30am Janette Ballard, Cynhyrchydd rhaglen Panorama y BBC yn siarad am: **Teledu: ceisio heddwch a chymod?** Eglwys Unol Treganna, trefnwyd gan Eglwysi gyda'i Gilydd, Treganna a Glan-yr-afon t: 029 2023 914031

# Gwyl Heddwch Cymru



## 18-19 Hydref

## Bangor

**Trefnwyr:** Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn gyda chymorth Amnest Menai, Amnest Myfyrwyr, CCU Bangor
**Noddwyr:** CND Cymru, Cynefin y Werin, Cymdeithas y Cymod

**Bydd y digwyddiad gwych yma yn cynnwys siaradwyr ac arweinwyr gweithdai:**

**Stephen Thomas**, Canolfan Materion Rhygnwaldol Cymru,
Cadeirydd CND Cymru, **Jill Evans ASE**,
yr awdur **Mark Curtis,**
**Dylan Morgan** o PAWB yn trafod peryglon puer niwclear ar Ynys Môn,
**James Maiden** o ymgyrch Atal Academi Filwrol Sain Tathan,
**y Parch.Guto Prys ap Gwynfor** ar grefydd a rhyfel,
**Jonathan Ervine**, Prifysgol Bangor, ar ryfel, heddwch a'r sinema,
dychweliad **Moazzam Begg** ar ran mudiad Cageprisoners,
**Greg Muttitt** o Ymgyrch Dwylo Bant o Olew Irac,
**Mary Compton,** Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (ar Balesteina a'r Tiroedd dan Feddiant),
**Dr Bianca Ambrose-Oji,** Canolfan Astudiaethau Sychtiroedd Prifysgol Bangor, yn trafod sut y gall y newid yn yr hinsawdd effeithio ar adnoddau a gwleidyddiaeth yn Affrica
. . . ymhlith llawer o rai eraill.

**Bydd cyfle i bawb gymryd rhan mewn trafodaethau a dadleuon, cymdeithasu a mwynhau bwyd da a cherddoriaeth yn cynnwys Côr Cymuned Bangor, Gwilym Morus, sesiwn ddawns a chwmni penigamp.**

**Dewch am dipyn neu am y penwythnos cyfan, mae'n rhad ac am ddim ond croeso mawr i gyfraniadau tuag at y costau!**

**Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ystod y misoedd nesaf, cysyllter â Phil Steele a Linda Rogers: Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn: 01248 490 715 phil_steele@btinternet.com**


## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:**
Jill Gough
0845 313 8 414
heddwcheditor@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com



## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
01824 709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
01792 830 330
jonebri.nptc@webmail.digitalbrain.com

Llew Smith

George Crabb
01446 774 452
georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk

Olwen Davies
(y canolbarth)
01970 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**aelodaeth & aelodau**
9,Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
01970 626 740
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**trysorydd**
Chris Edmonson
3, Mountain View, Llanfoist, Abergavenny NP7 9YA
01873 853 094
chris.edmonson@alligin.net

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Gough,
Y Drain Gwynion,
Heol yr Eglwys, Talywaun,
Pontypwl NP4 7EF
0845 313 8 414
heddwch@cndcymru.org

# YMAITH Â'R BOM

**Mae system arfau niwclear Trident Prydain yn cynnwys pedair llong danfor niwclear sy'n cludo 48 o ergydion niwclear yr un. Mae pob un o'r ergydion niwclear wyth gwaith yn fwy pwerus na'r bom a ollyngwyd ar Hiroshima ym 1945.**

**Yn awr, mae cenhedlaeth newydd o arfau niwclear Prydeinig yn cael ei datblygu yn ein henw ni a gyda'n harian ni. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes yn trafod symud Trident o'r Alban. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau fod Trident yn cael ei ddileu, nid dim ond ei symud i fan arall.**

# Awn ati nawr i atal Trident!

**Sgrifennwch at eich AS.**
**Dysgwch fwy am y mater drwy ymuno â'n hymgyrch.**
**Dwi am gael gwared o arfau niwclear.**

✂.................................................................................................

## *Ymunwch ag CND Cymru*

enw:.........................................................................

cyfeiriad:....................................................................

......................................................................côdpost:..............................

teleffôn:.............................. ebost ...................................................

**Amgaeaf siec/AB am £** **Yn daladawy i *CND Cymru***

☐ £30 pâr cyflogedig ☐ £15 digyflog

☐ £20 oedolyn ☐ £10 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr

Dychweler i: Aelodaeth CND Cymru, 9, Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE